Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Datganiad newyddion

27 Ionawr 2009

Safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru yn gwella ar y cyfan, ond mae angen mynd i'r afael â'r heriau allweddol ar unwaith i wella cynnydd

Yn gyffredinol, mae safonau cyflawniad ar draws pob sector addysg a hyfforddiant yng Nghymru yn dda o leiaf yn ôl Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2007-2008. Mae'r adroddiad yn amlygu tystiolaeth o rywfaint o arfer ragorol; fodd bynnag, mae tua 30% o arolygiadau yn dangos nad yw darparwyr yn gwneud yn ddigon da.

Yn ei adroddiad a gyhoeddwyd heddiw, mae Prif Arolygydd EM, Dr Bill Maxwell yn amlygu'r llwyddiannau mewn addysg a hyfforddiant dros y flwyddyn 2007-2008. Mae'n tynnu sylw at y tueddiadau tymor hwy dros y cylch arolygu cyfredol ac yn cymharu â'r cylch blaenorol. Dengys y canfyddiadau fod darparwyr a arolygwyd yn 2007-2008, yn gyffredinol, wedi gwella ers pan arolygwyd nhw chwe blynedd yn ôl.

Yn benodol, mae arwyddion cadarnhaol o gynnydd yn y sector ysgolion. Mewn ysgolion cynradd, mae safonau yn llawer gwell nag yr oeddent chwe blynedd yn ôl, a barnwyd bod 84% o'r gwersi a welwyd yn dda neu'n dda iawn. Ac mae bron pob disgybl mewn ysgolion uwchradd yn cael addysgu sy'n dda o leiaf neu'n well.

Mewn addysg bellach, mae'r safonau a farnwyd yn ystod arolygiadau wedi rhagori ar y targedau a osodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac mewn dysgu yn y gwaith, mae'r duedd o wella yn parhau ers y llynedd.

Bydd y Prif Arolygydd, sy'n lansio ei adroddiad heddiw (27 Ionawr) yng Ngholeg Llandrillo Cymru, yn amlinellu pedair her allweddol y mae'n credu bod angen mynd i'r afael â nhw os yw addysg a hyfforddiant yng Nghymru am fod o'r radd flaenaf.

"Rwy'n falch o ddweud bod negeseuon cadarnhaol, ond er gwaethaf y cyflawniadau hyn, mae llawer o waith i'w wneud o hyd. Ein her gyntaf yw gwneud yn siwr bod pob dysgwr yn gallu cyflawni eu potensial, yn enwedig y rheiny sy'n tangyflawni o ganlyniad i dlodi neu anfantais gymdeithasol. Wrth wneud hynny, mae angen i ni sicrhau hefyd fod ein dysgwyr mwyaf dawnus yn cael pob cyfle i ragori, beth bynnag fo'u cefndir," meddai Dr Bill Maxwell.

"Yn ail, mae angen clir i wella safonau addysgu a dysgu mewn Cymraeg ail iaith. Mae angen i ni hefyd gynnig llawer mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio a datblygu eu medrau Cymraeg yn y sector ôl-16.

"Mae Estyn wedi hyrwyddo datblygiad hunanarfarnu ar draws pob sector. Rhaid i ddarparwyr addysg a hyfforddiant yn awr ymgorffori hyn yn gadarn yn eu holl waith. Mae angen iddynt barhau i adeiladu ar eu cryfderau a mynd i'r afael â'r gwendidau i wella ansawdd yr hyn a wnânt.

"Yr her olaf yw sicrhau ein bod i gyd yn gweithio gyda'n gilydd er mwyn gwneud pethau'n well ar gyfer dysgwyr. Mae angen i bartneriaid o wahanol sectorau a gwahanol ardaloedd daearyddol rannu gwybodaeth a medrau yn fwy gweithredol nag erioed o'r blaen er mwyn i'r dysgwr elwa o ddifrif.

"Nid yw'r heriau hyn i gyd yn unigryw i Gymru, ond nid yw hynny'n lleihau'r angen i fynd i'r afael â nhw yn drylwyr. Mae gan bob un ohonom ni gyfrifoldeb i ysgogi newid er mwyn cyflawni rhagoriaeth i bob dysgwr - dysgwyr, staff rheng flaen, rheolwyr darpariaeth, awdurdodau lleol, llunwyr polisi cenedlaethol ac yn wir, Estyn."

DIWEDD

Nodiadau i Olygyddion:

Mae copi llawn o Adroddiad Blynyddol 2007-2008, crynodeb ohono (Rhagoriaeth i Bawb) a gweddarllediad gan y Prif Arolygydd wedi'u cyhoeddi ar wefan Estyn www.estyn.gov.uk

Estyn yw Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant Cymru. Ein nod yw cyflawni rhagoriaeth i bawb yng Nghymru. Gwnawn hyn trwy ddarparu gwasanaeth arolygu a chyngor annibynnol, o ansawdd uchel.

Ein gweledigaeth yw ein bod yn cael ein cydnabod trwy arbenigedd ein staff fel llais awdurdodol ar ddysgu yng Nghymru.

Rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cynulliad Cymru ond yn cael ein hariannu ganddi (o dan Adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998).

I gael rhagor o wybodaeth, trowch at ein gwefan www.estyn.gov.uk

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r:
Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk
02920 446464